

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Gymunedol y Gors

## Dyddiad yr arolygiad: Medi 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau islaw'r lefel ddisgwyliedig, yn enwedig mewn medrau iaith, cyfathrebu a chymdeithasol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cryf dros gyfnod. Mae arweinwyr a staff yn yr ysgol wedi ymrwymo i wella lles disgyblion a chodi safonau. Ceir ymdeimlad cynyddol o waith tîm, gyda ffocws ar y cyd ar greu amgylchedd cefnogol a chynhwysol ar gyfer yr holl ddisgyblion.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau llythrennedd, ar y cyfan. Maent yn datblygu medrau ysgrifennu cadarn ac mae disgyblion hŷn yn cynhyrchu ysgrifennu strwythuredig a difyr yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn dechrau sefydlu ymagwedd fwy cyson at addysgu darllen. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn darllen yn ddigon da, na gyda rhuglder a dealltwriaeth addas.

Mae disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth fathemategol yn dda. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn cymhwyso'u medrau yn hyderus mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd da ar gyfer datblygiad creadigol, corfforol, a digidol, a disgyblion yn cymryd rhan mewn prosiectau codio a gwaith amlgyfrwng. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda i gryfhau darpariaeth Gymraeg ar draws yr holl grwpiau blwyddyn, ond nid yw disgyblion hŷn yn hyderus yn siarad Cymraeg.

Mae lles disgyblion yn gryfder yn yr ysgol, ac mae staff yn darparu amgylchedd meithringar sy'n cefnogi datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion. Mae ymddygiad yn dda, ar y cyfan, ond ceir achosion o ychydig o darfu mewn gwersi, ac nid yw staff yn rheoli hyn yn effeithiol bob amser. Yn ychwanegol, nid yw'r addysgu ar draws yr ysgol bob amser yn rhoi digon o her i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol mewn dysgu.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn gosod targedau defnyddiol ar gyfer gwella. Mewn ychydig o achosion, nid yw arweinwyr yn canolbwyntio'n ddigon trylwyr ar ansawdd yr addysgu. Fodd bynnag, at ei gilydd, maent yn gweithio'n effeithiol gyda staff i wella arweinyddiaeth ar bob lefel, sy'n cael effaith gadarnhaol ar gyfeiriad yr ysgol. Mae arweinwyr wedi meithrin perthnasoedd cryf â rhieni, gan ddarparu boreau coffi a gweithdai rheolaidd. Mae'r ysgol yn cryfhau ei chyfathrebu â rhieni ymhellach i sicrhau bod pob un ohonynt yn teimlo'u bod yn cael eu hysbysu a'u cynnwys ym mywyd yr ysgol.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud 3 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella**

**A1 Mireinio prosesau gwerthuso i ganolbwyntio’n agosach ar wella cysondeb addysgu effeithiol ar draws yr ysgol i sicrhau bod pob un o’r disgyblion yn cael eu herio’n ddigonol ac yn mynd ati i ymgysylltu â’u dysgu**

**A2 Gwella ymagweddau at addysgu darllen ar draws yr ysgol i sicrhau bod pob un o’r disgyblion yn datblygu eu medrau’n briodol**

**A3 Parhau i wella presenoldeb**

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.**



Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/11/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy’n cael eu dangos yn rhai o’r ysgol sy’n destun yr adroddiad hwn.